

Ffeithiau am Fasnach Deg:

- Cymru oedd y wlad Fasnach Deg gyntaf yny byd
- Rhydaman oedd y dref Fasnach Deg gyntaf yng Nghymru
- Bu Sir Gaerfyrddin yn sir Fasnach Deg ers 2007
- Ar hyn o bryd mae 22 o ysgolion yn y sir yn falch iawn i hedfan baner Masnach Deg.



Newyddion o gwmpas y sir

Bu **Llanelli** a'r cylch yn fwrlwm o weithgareddau. Trefnwyd bore coffi Masnach Deg gyda rhodd o fanana Masnach Deg ar gyfer canol y dref, wedi'i gefnogi gan fusnesau lleol i nodi Pythefnos Masnach Deg. Cynorthwyodd ysgolion lleol mewn creu arddangosfa Masnach Deg yn Nhŷ Llanelli ym mhresenoldeb yr AS lleol a'r maer. Cynhaliwyd parti blynyddol Masnach Deg llwyddiannus iawn gydag adloniant cerddorol yn mis Ionawr gyda bwffe Masnach Deg wedi'i noddi gan y Co-op.

Bydd tref **Caerfyrddin** yn hyrwyddo Masnach Deg yn ystod gweithgareddau Wythnos Dewi Sant eleni. Mae'r dref yn diweddar cyfeirlyfr masnach MD a byddant yn rhannu'r hwyl i gyd ar eu tudalen Facebook. Denodd cystadleuaeth Santes Dwynwen y dref dros fil o ymgeiswyr a chyfwynwyd basged MD i'r enillydd.



Bydd **Castell Newydd Emlyn** yn dathlu Pythefnos MD gyda 'Bake-off' Cacen Siocled MD mawreddog. Bydd siopau lleol yn cynnal eu hyrwyddiadau MD a digwyddiadau blasu eu hunain. Hefyd bydd parcio MD am ddim! Cynlluniwyd cwis tafarn MD arall. Mae'r grŵp lleol yn barod iawn i rannu'u cwestiynau os oes grŵp arall eisiau cynnal digwyddiad tebyg yn eu hardal.

Bydd **Rhydaman** yn dathlu Pythefnos MD gyda'u 'Banana Split'. Nid 'banana Split' cyffredin yw hwn. Mae dros gan troedfedd o hyd, yn rhedeg ar hyd arcêd y dref. Hon fydd yr unfed flwyddyn ar ddeg y bydd y dref wedi nodi Pythefnos MD yn y ffordd yma.



Dyma Siôn Corn ar stondin MD Nadolig ar ôl iddo ddosbarthu calendrau adfent siocled MD i blant yn ystod cynnau goleuadau coeden Nadolig Cyngor Cymuned Llangynnwr yng nghapel Babel.



Sganiwch i ddarllen mwy am MD

Masnach Deg yn ein hysgolion

Bwriad gwobrau ysgolion MD yw dysgu, cael hwyl a gweithredu er mwyn gwella pethau. Ysgol Meidrim yw ysgol ddiweddaraf yn y sir i ennill gwobr Cyflawni'n deg ac mae'n un o 22 o ysgolion sy'n gallu hedfan baner MD. Mae gan 11 o ysgolion statws Gweithredu'n deg ac maent yn agos at gyffro ennill y faner MD.



Siocled Divine a chystadleuaeth barddoniaeth Cymorth Cristnogol

Thema eleni yw **Sut mae siocled yn gallu newid y byd?** Dyddiad cau'r gystadleuaeth yw Ebrill 30ain 2019 (Mehefin 14eg ar gyfer cerddi Saesneg). Mae adnoddau dysgu ar gael ar

<https://www.christianaid.org.uk/get-involved-locally/wales/cystadleuaeth-divine-2019>



Wrth wraidd Divine mae stori anhygoel cydweithfa Kuapa Kokoo o ffermwyr coco yn Ghana a bleidleisiodd nôl yn 1997 i sefydlu eu cwmni siocled MD eu hunain. Heddiw mae gan y cyweithfa 85,000 o aelodau mewn 1,257 o gymdeithasau pentref. Buddsoddir eu premiwm mewn datblygu cymunedau ffermio ar sgiliau



ffermio - yn canolbwytio'n arbennig ar ddŵr, iechyd, addysg a glanweithdra er mwyn gwella safonau byw. Arweiniodd Kuaoa Kokoo y ffordd ar lafur plant ac maen peilota nifer o fentau amgylcheddol gyda'r bwriad o gynyddu cynhyrchedd ac addasu i Newid Hinsawdd.

Casglu ffa siocled MD yn Ghana



Mae pethau bach yn gwneud gwahaniaeth

Cynewid syml - Yn eich gwaith neu'ch clwb, cyfnewidiwch eich te neu'ch coffi ar gyfer fersiwn MD. Os yw'ch ffrindiau neu'ch cyd-weithwyr yn achwyn, ceisiwch gael sesiwn 'blasu heb weld' i helpu'u perswadio nhw i newid. Gadewch i ni wybod sut aeth pethau.



Prynwch ŵy Pasg. Mae cymaint o gwmnïau siocled yn gwneud wyau Pasg MD erbyn hun, gyda digonedd o ddewis am amrywiaeth o brisiau. Prynwch ŵy ar gyfer rhywun rydych chi'n ei garu gan wybod eich bod yn helpu eraill ar yr un pryd Cadwch lygad ar y logo MD.

Os gwelwch yn dda, rhannwch y cylchlythyr hwn gyda ffrind os ydych yn meddwl bod diddordeb gyda nhw mewn materion Masnach Deg yn Sir Gaerfyrddin.

